OCR CYMRU

TECHNOLEG GWYBODAETH A CHYFATHREBU

Tabl Cynnwys

Y prif wahaniaethau rhwng y lefelau 4

Lefel 1 5
TGCh1.1 - Canfod a dethol gwybodaeth berthnasol 6
TGCh1.2 - Bwydo i mewn a datblygu gwybodaeth sy'n addas i'r dasg 6
TGCh1.3 - Datblygu'r cyflwyniad fel bod y fersiwn terfynol yn gywir ac yn addas i'r pwrpas 7
Defnydd pwrpasol o'r e-bost 7
Atodiad A - Crynodeb o'r Uned 8
Atodiad B - Cofnod Chwilio TGCh1.1 10
Atodiad C - TGCh1.1 Canfod a dethol gwybodaeth berthnasol. 11
Atodiad D - Cofnod Ffeil 12
Atodiad E - TGCh1.2 Bwydo a datblygu gwybodaeth sy'n addas i'r dasg 13
Atodiad F - TGCh1.3 Datblygu'r cyflwyniad fel bod y fersiwn terfynol yn gywir ac yn addas i'r pwrpas 14
Atodiad G - Defnydd pwrpasol o'r e-bost: 15

Lefel 2 16
TGCh2.1 - Chwilio am wybodaeth a'i dethol er mwyn ateb eich anghenion. Defnyddio gwahanol ffynonellau gwybodaeth ar gyfer pob tasg a meini prawf lluosol mewn o leiaf un achos. 16
TGCh2.2 - Bwydo i mewn a datblygu'r wybodaeth fel ei bod yn addas i'r dasg ac olrhain gwybodaeth newydd 17
TGCh2.3 - Cyflwyno gwybodaeth gyfunol fel testun â delwedd, testun â rhif, delwedd â rhif 18
Defnydd pwrpasol o'r e-bost 18
Atodiad H - Crynodeb o'r Uned 19
Atodiad I - TGCh2.1 Chwilio am wybodaeth a'i dethol er mwyn ateb eich anghenion. Defnyddio gwahanol ffynonellau gwybodaeth ar gyfer pob tasg a meini prawf chwilio lluosol mewn o leiaf un achos. 21
Atodiad J - ICT2.2 Bwydo a datblygu'r wybodaeth fel ei bod yn addas i'r pwrpas ac olrheinio gwybodaeth newydd. 22
Atodiad K - TGCh2.3 Cyflwyno gwybodaeth gyfunol fel testun â delwedd, testun â rhif, delwedd â rhif. 23
Atodiad L - Cofnod Ffeil 24
Atodiad M – Defnydd pwrpasol o'r e-bost: 25

Lefel 3 26
TGCh3.1 - Chwilio am wybodaeth, gan ddefnyddio gwahanol ffynonellau a defnyddio meini prawf chwilio lluosol mewn o leiaf un achos 26
TGCh3.2 - Bwydo i mewn a datblygu'r wybodaeth fel ei bod yn addas i'r tasgau ac olrheinio gwybodaeth newydd 27
TGCh3.3 – Cyflwyno gwybodaeth gyfunol fel testun â delwedd, testun â rhif, delwedd â rhif 29
Atodiad N - Crynodeb o'r Uned 30
Atodiad O – Cynllun Gweithredu 31
Atodiad P – Ffurflen Ffynonellau Gwybodaeth - TGCh3.1 32

Atodiad Q - TGCh3.1 Chwilio am wybodaeth gan ddefnyddio gwahanol ffynonellau a defnyddio meini prawf chwilio lluosol mewn o leiaf un achos. ..34
Atodiad R – Ffurflen Barnu Gwybodaeth – TGCh3.1 35
Atodiad S - TGCh3.1 Chwilio am wybodaeth gan ddefnyddio gwahanol ffynonellau a defnyddio meini prawf chwilio lluosol mewn o leiaf un achos.. .37
Atodiad T - Ffurflen Cyfnewid Gwybodaeth – TGCh3.2/TGCh3.3,.....38
Atodiad U - TGCh3.2 Bwydo i mewn a datblygu'r wybodaeth ac olrheinio gwybodaeth newydd.. 40
Atodiad V - TGCh3.3 Cyflwyno gwybodaeth gyfunol fel testun â delwedd, testun â rhif, delwedd â rhif.....41

Nod y sgil allweddol hwn yw annog ymgeiswyr i ddatblygu ac i arddangos eu sgiliau wrth ddefnyddio TGCh ar gyfer canfod, archwilio, datblygu a chyflwyno gwybodaeth (testun, delwedd a rhif).

Y prif wahaniaethau rhwng y lefelau

Gweithgareddau lefel 1 – 2	**Gweithgareddau lefel 2 – 2**	**Gweithgareddau lefel 3 – 2**
Mae'n rhaid i ymgeiswyr: • drin gwybodaeth rifiadol, destunol a graffigol syml yng nghyd-destun gweithgareddau byr, syml, drwy ddefnyddio technegau sylfaenol. • Gwybod sut mae anfon a derbyn negeseuon e-bost ac arddangos defnydd pwrpasol o'r e-bost yn gysylltiedig ag un o'r gweithgareddau. Rhaid nodi **NAD** oes gofyn i ymgeiswyr gyfuno gwybodaeth e.e. cael testun a gwaith graffeg ar yr un dudalen.	Mae'n rhaid i ymgeiswyr: • wneud chwiliadau effeithiol gan gynnwys defnyddio meini prawf lluosol wrth chwilio • olrhain gwybodaeth newydd • cyflwyno gwybodaeth gyfunol e.e. testun a gwaith graffeg yn yr un ddogfen mewn dull cyson • cofnodi fformiwlâu wrth ddefnyddio meddalwedd priodol i gynhyrchu cyfrifiadau syml e.e. cyfansymiau • gwybod sut mae anfon a derbyn negeseuon e-bost ac arddangos defnydd pwrpasol o'r e-bost yn gysylltiedig ag un o'r gweithgareddau.	Mae'n rhaid i ymgeiswyr: • gyflawni gweithgareddau, sy'n fwy cymhleth ac sy'n gofyn am dechnegau mwy cymhleth. • creu strwythurau a gweithdrefnau ar gyfer datblygu testun, delweddau a rhifau. • cynllunio a chyflawni o leiaf un dasg fawr • gwybod sut mae rheoli eu gwaith a'r dechnoleg a'r meddalwedd y maent yn eu defnyddio. • gwybod sut mae anfon a derbyn negeseuon e-bost gydag atodiadau ac arddangos defnydd pwrpasol o'r e-bost yn gysylltiedig ag un o'r gweithgareddau.

Lefel 1

Mae nifer o feysydd yn Bagloriaeth Cymru a allai roi cyfle i ymgeiswyr gasglu tystiolaeth berthnasol. Mae gofyn i ymgeiswyr gyflawni o leiaf dau weithgaredd er mwyn bodloni gofynion y safonau. Mae'n rhaid iddynt gyflwyno gwybodaeth ar gyfer dwy dasg, sy'n cynnwys testun, delwedd a rhif. Gallant gymryd ffurf unrhyw un o'r cyfuniadau isod cyn belled ag y bo sylw cael ei roi i'r tri:

- Testun a delwedd
- Testun a rhif
- Delwedd a rhif

Gellid cysylltu un gweithgaredd â'r modiwl ABCh e.e. cynnal digwyddiad elusennol. Efallai y bydd yr ymgeisydd yn gyfrifol am gynllunio poster i hysbysebu'r digwyddiad. Er nad yw'r cynnyrch terfynol yn gofyn bod y ddelwedd a'r testun ar yr un dudalen, mae'r ymgeiswyr fel arfer yn gallu gwneud hynny. Bydd yr ymgeisydd yn cynnwys delweddau sydd wedi'u seilio ar TGCh a all gynnwys delweddau o'r Rhyngrwyd (gan gydymffurfio â rheoliadau Hawlfraint), clipluniau o CD-ROM, delweddau wedi'u sganio ac ati. Byddant hefyd yn defnyddio ffynonellau nad ydynt yn deillio o TGCh fel gwybodaeth am yr amser, y dyddiad, y lleoliad ac ati.

Gallai gweithgaredd arall fod yn gysylltiedig â'u hymchwiliadau ym maes Cymru, Ewrop a'r Byd. Bydd gofyn iddynt ymchwilio gwybodaeth ac fel arfer, byddant yn defnyddio ffynonellau TGCh ac eraill e.e. y Rhyngrwyd a llyfrau o'r Llyfrgell/Gwerslyfrau. Gallent gyflwyno canlyniadau eu hymchwil a chynnwys delweddau a/neu wybodaeth rifiadol fel y bo'n briodol i'r ymchwiliad. Gall y delweddau a/neu ddata rhifiadol fod ar dudalennau ar wahân i'r testun a heb eu cyfuno.

Gellid defnyddio un o'r gweithgareddau a gyflawnwyd ar gyfer eu sgil allweddol, Cymhwyso Rhif, a gellid defnyddio meddalwedd fel taenlenni i wirio cyfrifiadau a defnyddio TGCh i gyflwyno'r canlyniadau.

Dylid hefyd ystyried y gall y cynnyrch terfynol hefyd gael eu defnyddio ar y lefel briodol fel tystiolaeth ar gyfer sgil allweddol Cyfathrebu.

Dylid cofnodi lleoliad y dystiolaeth yn erbyn holl elfennau'r meini prawf yn ôl rhif y dudalen ar y Crynodeb o'r Uned. Gweler **Atodiad A.**

Mae'n rhaid i ymgeiswyr hefyd ddangos defnydd pwrpasol o'r e-bost. Mae'n rhaid iddynt wybod sut i anfon a derbyn negeseuon e-bost a rhoi tystiolaeth o ddefnyddio'r e-bost mewn perthynas ag un o'r tasgau.

TGCh1.1 – Canfod a dethol gwybodaeth berthnasol

Mae gofyn i'r ymgeisydd ddefnyddio TGCh ar gyfer dwy dasg wahanol. Nid yw arddangos y sgil allweddol TGCh ynddo'i hun yn ddigonol fel tasg. Mae'n rhaid bod yn glir ynghylch yr hyn oedd bwriad yr ymgeisydd, ei bwrpas a'r canlyniad disgwyliedig. Ar gyfer pob tasg, mae'n rhaid bod tystiolaeth y gall yr ymgeisydd ganfod a dethol gwybodaeth berthnasol. Ar draws y tasgau, mae'n rhaid cael tystiolaeth o ganfod a dethol o leiaf un ffynhonnell wybodaeth TGCh ac un ffynhonnell wybodaeth nad yw'n gysylltiedig â TGCh.

TGCh1.1.1 – dewis gwybodaeth sy'n berthnasol i'ch tasgau

Dylid annog ymgeiswyr i gynnwys drafftiau anodedig o'u ffynonellau gan gynnwys o ble y'u cafwyd. Mae'r anodiad yn dangos beth mae'r ymgeisydd wedi ei ddewis yng nghyd-destun y gweithgaredd sy'n cael ei gyflawni ganddynt.

Gallai ymgeiswyr gwblhau'r Cofnod Chwilio yn **Atodiad B**, i'w gynnwys gyda'u deunydd anodedig. Dylai'r ymgeisydd a/neu'r asesydd hefyd lenwi'r Cofnod Asesu yn **Atodiad C**.

TGCh1.2 – Bwydo i mewn a datblygu gwybodaeth sy'n addas i'r dasg

Mae'n rhaid i ymgeiswyr ddangos eu bod yn gallu bwydo eu gwybodaeth ddethol i mewn i feddalwedd priodol, gan ddefnyddio fformatau a fydd yn helpu iddynt ddatblygu eu gwaith. Mae'n rhaid i'r wybodaeth rifyddol fod yn addas ar gyfer gweithrediadau rhifiadol syml e.e. cyfansymu. Dylai'r ymgeisydd a/neu'r asesydd hefyd lenwi'r Cofnod Asesu yn **Atodiad E**.

TGCh1.2.1 – bwydo i mewn wybodaeth gan ddefnyddio fformatau sy'n cynorthwyo datblygiad

Dylid annog ymgeiswyr i gynnwys drafftiau anodedig o'u gwaith, sy'n dangos yn glir y newidiadau y maent yn eu gwneud. Mae'n bwysig gallu gweld sut mae'r ymgeisydd wedi datblygu'r gwaith ac nid darparu'r cynnyrch terfynol yn unig.

TGCh1.2.2 - cadw gwybodaeth fel y gellir ei chanfod yn rhwydd

Gellid dangos tystiolaeth o hyn fel a ganlyn:

- delweddau sgrin o adran ddefnydd yr ymgeisydd yn dangos y ffeiliau a gadwyd a'r confensiwn enwi a ddefnyddiwyd
- yr asesydd neu berson priodol arall yn rhoi tystiolaeth eu bod wedi arsylwi'r ymgeisydd yn cadw mewn dull priodol
- llenwi'r Cofnod Ffeil yn **Atodiad D**.

TGCh1.3 – Datblygu'r cyflwyniad fel bod y fersiwn terfynol yn gywir ac yn addas i'r pwrpas

Ar gyfer pob un o'r tasgau, mae'n rhaid i'r ymgeiswyr ddarparu tystiolaeth sy'n dangos eu bod yn gallu defnyddio gosodiad addas er mwyn sicrhau bod y wybodaeth yn cael ei chyflwyno mewn dull cyson e.e. defnyddio tabiau a gofod rhwng paragraffau. Mae'n rhaid i'r gwaith terfynol fod yn gywir ac yn glir. Dylai'r ymgeisydd a/neu'r asesydd hefyd lenwi'r Cofnod Asesu yn **Atodiad F**.

TGCh1.3.1 – defnyddio gosodiadau priodol ar gyfer cyflwyno gwybodaeth mewn modd cyson

Mae'n bwysig dangos yn glir pa ddogfen yw'r gwaith terfynol, oherwydd bydd yr ymgeisydd yn cynnwys amrywiol gopïau drafft. Mae'n bwysig bod y cynnyrch terfynol yn glir, yn gywir ac yn addas i'r pwrpas.

Defnydd pwrpasol o'r e-bost

Mae'n bwysig bod y dystiolaeth ar gyfer defnyddio'r e-bost yn gysylltiedig ag un o'r gweithgareddau. Mae'n rhaid i ymgeisydd wybod sut i anfon a derbyn negeseuon e-bost, ond **nid oes** rhaid iddynt gynnwys atodiadau. Dylai'r dystiolaeth gynnwys allbrintiau o'r neges(euon) e-bost a gallent ddeillio o unrhyw un o'r canlynol:

- Gofyn am wybodaeth
- Trefnu cyfarfod â phobl eraill i gyflwyno'r gwaith er mwyn cael adborth
- Gofyn am help
- Rhoi diweddariad ynghylch sut y mae'r gwaith yn datblygu

Dylai ymgeiswyr hefyd lenwi'r ffurflen yn **Atodiad G**, i gefnogi eu tystiolaeth.

Atodiad A – Crynodeb o'r Uned

Ymgeisydd _____

Yn gyfan gwbl, drwy wneud dau weithgaredd neu fwy, mae'n rhaid i chi:

- gynnwys o leiaf un ffynhonnell wybodaeth wedi'i seilio ar TGCh
- cynnwys o leiaf un ffynhonnell wybodaeth heb fod wedi'i seilio ar TGCh
- defnyddio o leiaf un enghraifft o destun, un enghraifft o ddelwedd ac un enghraifft o rif
- cyflwyno tystiolaeth o ddefnydd pwrpasol o'r e-bost

CYDRAN				**CYFEIRNOD(AU)**
TGCh1.1 Canfod a dethol gwybodaeth berthnasol.	**Gweithgaredd 1**	Ffynhonnell TGCh (os yw'n briodol)		
		Ffynhonnell nad yw'n seiliedig ar TGCh (os yw'n briodol)		
	Gweithgaredd 2	Ffynhonnell TGCh (os yw'n briodol)		
		Ffynhonnell nad yw'n seiliedig ar TGCh (os yw'n briodol)		
TGCh1.2 Bwydo i mewn a datblygu gwybodaeth sy'n addas i'r dasg.	**Gweithgaredd 1**			
	Gweithgaredd 2			
TGCh1.3 Datblygu'r cyflwyniad fel bod y fersiwn terfynol yn gywir ac yn addas i'r pwrpas. **Mae'n rhaid i'ch gwaith gynnwys o leiaf un enghraifft o destun, un enghraifft o ddelwedd ac un enghraifft o rif.**	**Gweithgaredd 1**	Testun (os yw'n briodol)		
		Delweddau (os yw'n briodol)		
		Rhifau (os yw'n briodol)		
	Gweithgaredd 2	Testun (os yw'n briodol)		
		Delweddau (os yw'n briodol)		
		Rhifau (os yw'n briodol)		
Defnydd pwrpasol o'r e-bost	**Gweithgaredd 1 neu 2**			

Rwyf yn cadarnhau mai gwaith yr ymgeisydd ei hun yw'r dystiolaeth a gyflwynir a'i fod yn bodloni'r holl ofynion o ran tystiolaeth ar gyfer y Sgil Allweddol hwn.

ASESYDD _____ **YMGEISYDD** _____

DYDDIAD _____ **DYDDIAD** _____

Atodiad B – Cofnod Chwilio TGCh1.1

Enw'r Ymgeisydd: _____

Pa wybodaeth y mae angen i mi chwilio amdani?	
Ym mhle y bydda' i'n chwilio am y wybodaeth hon?	
Sut y bydda' i'n chwilio am y wybodaeth hon?	
A oeddwn i wedi canfod y wybodaeth roeddwn ei hangen? Os nad oeddech yn llwyddiannus, esboniwch pam.	
A gedwais i'r allbrintiau o'm gwaith chwilio?	

Llofnod y Tiwtor/Asesydd yn cadarnhau bod yr ymgeisydd wedi cyflawni'r gwaith chwilio. _____

Dyddiad: _____

Atodiad C - TGCh1.1 Canfod a dethol gwybodaeth berthnasol.

Ymgeisydd _____

Pwrpas y dasg _____

_____

Gweithgaredd 1 ☐ **Gweithgaredd 2** ☐ (Ticiwch a yw ar gyfer gweithgaredd 1 neu 2)

Maen prawf ar gyfer asesu	**Sut y bodlonwyd y meini prawf ar gyfer asesu**
1.1.1 Dewis gwybodaeth sy'n berthnasol i'ch tasgau	

Tystiolaeth gefnogol (os yw'n briodol) wedi'i hatodi neu gellir ei gweld yn

_____

ASESYDD _____ **YMGEISYDD** _____

DYDDIAD _____ **DYDDIAD** _____

Atodiad D – Cofnod Ffeil

Ymgeisydd _____

Dyddiad	Gyriant	Ffolder/cyfeirlyfr	Enw'r ffeil

ASESYDD _____ **YMGEISYDD** _____

DYDDIAD _____ **DYDDIAD** _____

Atodiad E - TGCh1.2 Bwydo a datblygu gwybodaeth sy'n addas i'r dasg.

Ymgeisydd _____

Pwrpas y dasg _____

_____

Gweithgaredd 1 ☐ **Gweithgaredd 2** ☐ (Ticiwch a yw ar gyfer gweithgaredd 1 neu 2)

Meini prawf ar gyfer asesu	**Sut y bodlonwyd y meini prawf ar gyfer asesu**
1.2.1 Bwydo i mewn wybodaeth gan ddefnyddio fformatau sy'n cynorthwyo datblygiad	
1.2.2 Cadw gwybodaeth fel y gellir ei chanfod yn rhwydd	

Tystiolaeth gefnogol (os yw'n briodol) wedi'i hatodi neu gellir ei gweld yn _____

ASESYDD _____ **YMGEISYDD** _____

DYDDIAD _____ **DYDDIAD** _____

Atodiad F - TGCh1.3 Datblygu'r cyflwyniad fel bod y fersiwn terfynol yn gywir ac yn addas i'r pwrpas

Ymgeisydd _____

Pwrpas y dasg _____

_____

(Ticiwch a yw ar gyfer y gweithgaredd cyntaf **neu'r** ail)

Gweithgaredd 1 ☐ **Testun** _____ **Gweithgaredd 2** ☐ **Testun** _____

Delwedd _____ **Delwedd** _____

Rhif _____ **Rhif** _____

Meini prawf ar gyfer asesu	**Sut y bodlonwyd y maen prawf ar gyfer asesu**
1.3.1 Defnyddio gosodiadau priodol ar gyfer cyflwyno gwybodaeth mewn modd cyson	

Tystiolaeth gefnogol (os yw'n briodol) wedi'i hatodi neu gellir ei gweld yn _____

ASESYDD _____ **YMGEISYDD** _____

DYDDIAD _____ **DYDDIAD** _____

Atodiad G – Defnydd pwrpasol o'r e-bost:

Dyddiad defnyddio'r e-bost	Rheswm dros ddefnyddio'r e-bost	Pa dystiolaeth ydych chi wedi'i chynnwys i ddangos hyn?

Lefel 2

Mae gan Fagloriaeth Cymru nifer o feysydd a allai roi cyfle i ymgeiswyr gasglu gwybodaeth berthnasol. Mae gofyn i ymgeiswyr gyflawni o leiaf dau weithgaredd i fodloni gofynion y safonau. Mae'n rhaid iddynt gyflwyno gwybodaeth ar gyfer dwy dasg, sy'n cynnwys testun, delwedd a rhif. Gallant gymryd ffurf unrhyw un o'r cyfuniadau isod cyn belled ag y bo sylw'n cael ei roi i'r tri:

- Testun a delwedd
- Testun a rhif
- Delwedd a rhif

Gallai un o'r prif ffynonellau tystiolaeth ar gyfer y sgil hwn ddod o'r ymchwiliad ym maes Cymru, Ewrop a'r Byd. Gallai'r ymgeisydd ddarparu cyflwyniad ysgrifenedig a fyddai fel arfer yn cynnwys graffiau, ffotograffau, tablau ystadegol, diagramau ac ati, gan ddefnyddio TGCh. Ar lefel 2 mae'n rhaid i'r ymgeiswyr gyflwyno gwybodaeth gyfunol e.e. testun a delwedd, testun a rhif, rhif a delwedd, yn yr un ddogfen. Yn yr enghraifft hon, maent yn debygol o gynnwys y tri. Fodd bynnag, byddai'n rhaid i'r ymgeiswyr hefyd ddarparu tystiolaeth o ail dasg lle mae delwedd a rhif, delwedd a thestun neu rif a thestun yn cael eu cyfuno.

Gallai gwaith a wnaed yn cynnal arolwg o ran mewnfuddsoddi i Gymru a dadansoddiad o'r canlyniadau ddeillio o'r ail weithgaredd.

Dylid cofnodi lleoliad y dystiolaeth yn erbyn pob un o elfennau'r meini prawf yn ôl rhif y dudalen ar y Crynodeb o'r Uned. Gweler **Atodiad H.**

Mae'n rhaid i ymgeiswyr hefyd ddangos eu bod yn defnyddio'r e-bost yn bwrpasol. Mae'n rhaid iddynt wybod sut i anfon a derbyn negeseuon e-bost a darparu tystiolaeth o ddefnyddio'r e-bost mewn perthynas ag un o'r tasgau.

TGCh2.1 – Chwilio am wybodaeth a'i dethol er mwyn ateb eich anghenion. Defnyddio gwahanol ffynonellau gwybodaeth ar gyfer pob tasg a meini prawf lluosol mewn o leiaf un achos.

Gellir defnyddio chwiliadau meini prawf lluosol wrth ddefnyddio peiriannau chwilio ar y Rhyngrwyd e.e. Mewnfuddsoddi yng Nghymru neu o chwilio drwy wybodaeth mewn cronfa ddata e.e. pawb sy'n siarad Cymraeg yn Ne Cymru. Mae'n bwysig bod ymgeiswyr yn profi eu bod wedi defnyddio chwiliadau meini prawf lluosol a'u perthynas i'r wybodaeth y maent yn chwilio amdani.

Dylai ymgeiswyr gynnwys enghreifftiau o wybodaeth wreiddiol, wedi'i hanodi'n addas i ddangos y wybodaeth y byddant yn ei defnyddio. Mae'n bwysig bod tystiolaeth o un ffynhonnell TGCh o leiaf, ac o un ffynhonnell nad yw'n gysylltiedig â TGCh ar draws y ddau weithgaredd.

TGCh2.1.1 – dethol gwybodaeth sy'n berthnasol i'r tasgau

Mae'n bwysig bod yr ymgeisydd yn canfod ffynonellau gwybodaeth addas ac yna'n chwilio am, a dethol gwybodaeth berthnasol sy'n addas ar gyfer y gweithgaredd. Mae'n ofynnol hefyd bod y berthynas rhwng y wybodaeth sy'n cael ei dethol a'r pwrpas yn glir.

Gallai ymgeiswyr lenwi'r Cofnod Chwilio yn **Atodiad I** ynghyd â chynnwys copïau anodedig o ddeunyddiau gwreiddiol a phrawf o chwilio yn ôl meini prawf lluosol e.e. defnyddio argraffiadau sgrin.

TGCh2.2 – Bwydo i mewn a datblygu'r wybodaeth fel ei bod yn addas i'r dasg ac olrhain gwybodaeth newydd

Mae'n bwysig bod yr ymgeiswyr yn cynnwys drafftiau anodedig o'u gwaith yn esbonio'r newidiadau y maent yn bwriadu eu gwneud, a pham. Mae angen i ymgeiswyr ddangos eu bod wedi bwydo testun, rhifau, a delweddau i mewn yn gyson ac wedi defnyddio fformatau e.e. arddulliau i helpu gyda'r datblygiad. Mae hefyd yn bwysig bod tystiolaeth glir bod yr ymgeisydd wedi ychwanegu peth gwybodaeth newydd ei hun yn ychwanegol i'r hyn a gafwyd ar gyfer TGCh2.1. Gallai hyn fod ar ffurf yr ymgeisydd yn cynnwys ei ddehongliad personol ei hun o syniadau, ystyriaethau a/neu'r ymgeisydd yn gwneud cyfrifiadau, y maent wedyn yn eu dehongli fel rhan o arolwg.

Dylai'r asesydd a/neu'r ymgeisydd lenwi'r Cofnod Asesu yn **Atodiad J**.

TGCh2.2.1 – bwydo a chyfuno gwybodaeth gan ddefnyddio fformatau sy'n cynorthwyo datblygiad

Mae'n rhaid i ymgeiswyr gyfuno gwybodaeth e.e. gosod delweddau mewn dogfen destun, gosod data rhifiadol mewn dogfen destun ac ati. Dylai'r wybodaeth gael ei gosod mewn fformat sy'n addas i'r meddalwedd a ddefnyddir ac yn caniatáu datblygu yn y dyfodol. Dylai ymgeiswyr allu defnyddio fformatau yn gyson e.e. drwy ddefnyddio tabiwleiddio, unioni, bylchiad llinellau, arddulliau, tablau, colofnau, ymgorffori delweddau mewn fframiau.

TGCh2.2.2 – datblygu gwybodaeth ac olrhain gwybodaeth newydd fel y bo'n briodol

Dylai ymgeiswyr fod yn gallu defnyddio adnoddau golygu i help newid gosodiad y ddogfen ac felly dylent gynnwys drafftiau anodedig. Yn ogystal â hyn, mae'n rhaid iddynt ddangos eu bod wedi olrhain gwybodaeth newydd. Fel y nodwyd eisoes, gallai hyn fod ar ffurf eu dehongliad penodol eu hunain o syniadau, cyfrif gwerth drwy ddefnyddio fformiwlâu a/neu greu cyfeirnodau tudalen a mynegeion.

TGCh2.3 – Cyflwyno gwybodaeth gyfunol fel testun â delwedd, testun â rhif, delwedd â rhif

Mae'n rhaid i'r ymgeiswyr ddangos ym mhob un o'r tasgau eu bod yn gallu cyflwyno gwybodaeth mewn modd cyfannol, fel testun â delwedd, testun â rhif, delwedd â rhif neu hyd yn oed bob un o'r tri. Mae'n rhaid i'r cyflwyniad terfynol fod yn addas i'r pwrpas ac i'r mathau o wybodaeth sy'n cael eu cyflwyno. Mae'n bwysig bod y gwaith terfynol yn gywir ac yn glir ac wedi'i gadw mewn modd priodol.

Dylai'r ymgeisydd a/neu'r asesydd lenwi'r Cofnod Asesu yn **Atodiad K**.

TGCh2.3.1 – datblygu'r cyflwyniad fel bod y fersiwn terfynol yn gywir ac yn dangos defnydd cyson o fformatau

Dylai ymgeiswyr ddarparu eu gwaith terfynol fel tystiolaeth ar gyfer yr elfen hon. Mae'n rhaid bod y gwaith yn glir, yn gywir ac yn dangos eu bod wedi gallu dethol a defnyddio fformat priodol i gyflwyno gwybodaeth gyfunol, a oedd yn addas i'r pwrpas. Rhaid iddynt hefyd ddarparu tystiolaeth o gadw'r gwaith gan ddefnyddio'r confensiynau priodol ar gyfer enwi ffeiliau. Gellid rhoi tystiolaeth o hyn drwy argraffiadau sgrin o'u hadran ddefnydd yn dangos y ffeil(iau) a gadwyd a/neu lenwi'r Cofnod Ffeil yn **Atodiad L**.

TGCh2.3.2 – defnyddio gosodiadau sy'n briodol i'r mathau o wybodaeth

Dylai'r cyflwyniad terfynol fod yn briodol ar gyfer y wybodaeth a ddefnyddir. Dylai aseswyr fod yn edrych am ddefnydd cywir o benawdau, ymylon, colofnau, tablau, borderi a/neu fformatio taenlenni ar gyfer cyflwyno data rhifiadol.

Defnydd pwrpasol o'r e-bost

Mae'n bwysig bod y dystiolaeth ar gyfer defnyddio'r e-bost yn gysylltiedig ag un o'r gweithgareddau. Mae'n rhaid i ymgeisydd wybod sut i anfon a derbyn negeseuon e-bost, ond **nid oes** rhaid iddynt gynnwys atodiadau. Dylai'r dystiolaeth gynnwys allbrintiau o'r neges(euon) e-bost a gallent ddeillio o unrhyw un o'r canlynol:

- Gofyn am wybodaeth
- Trefnu cyfarfod â phobl eraill i gyflwyno'r gwaith er mwyn cael adborth
- Gofyn am help
- Rhoi diweddariad ynghylch sut y mae'r gwaith yn datblygu

Dylai ymgeiswyr hefyd lenwi'r ffurflen yn **Atodiad M**, i gefnogi eu tystiolaeth.

Atodiad H – Crynodeb o'r Uned

Ymgeisydd _____

Yn gyfan gwbl, drwy wneud dau weithgaredd neu fwy mae'n rhaid i chi:
- gynnwys o leiaf un ffynhonnell wybodaeth wedi'i seilio ar TGCh
- cynnwys o leiaf un ffynhonnell wybodaeth heb fod wedi'i seilio ar TGCh
- defnyddio o leiaf un enghraifft o destun, un enghraifft o ddelwedd ac un enghraifft o rif
- cyflwyno tystiolaeth o ddefnydd pwrpasol o'r e-bost

CYDRAN				**CYFEIRNOD(AU)**
TGCh2.1 Chwilio am wybodaeth a'i dethol er mwyn ateb eich anghenion. **Defnyddio gwahanol ffynonellau gwybodaeth ar gyfer pob tasg a defnyddio meini prawf chwilio lluosol mewn o leiaf un achos.**	**Gweithgaredd 1**	Ffynhonnell TGCh (os yw'n briodol)		
		Ffynhonnell nad yw'n seiliedig ar TGCh (os yw'n briodol)		
	Gweithgaredd 2	Ffynhonnell TGCh (os yw'n briodol)		
		Ffynhonnell nad yw'n seiliedig ar TGCh (os yw'n briodol)		
TGCh2.2 Bwydo a datblygu'r wybodaeth fel ei bod yn addas i'r dasg ac olrheinio gwybodaeth newydd.	**Gweithgaredd 1**			
	Gweithgaredd 2			
TGCh2.3 Cyflwyno gwybodaeth gyfunol, fel testun â delwedd, testun â rhif, delwedd â rhif.	**Gweithgaredd 1**	Testun (os yw'n briodol)		
		Delweddau (os yw'n briodol)		
		Rhifau (os yw'n briodol)		
	Gweithgaredd 2	Testun (os yw'n briodol)		
		Delweddau (os yw'n briodol)		
		Rhifau (os yw'n briodol)		
Defnydd pwrpasol o'r e-bost	**Gweithgaredd 1 neu 2**			

Rwyf yn cadarnhai mai gwaith yr ymgeisydd ei hun yw'r dystiolaeth a gyflwynir a'i fod yn bodloni'r holl ofynion o ran tystiolaeth ar gyfer y Sgil Allweddol hwn.

ASESYDD _____ **YMGEISYDD** _____

DYDDIAD _____ **DYDDIAD** _____

Atodiad I - TGCh2.1 Chwilio am wybodaeth a'i dethol er mwyn ateb eich anghenion. Defnyddio gwahanol ffynonellau gwybodaeth ar gyfer pob tasg a defnyddio meini prawf chwilio lluosol mewn o leiaf un achos.

COFNOD CHWILIO

Ymgeisydd _____

Pwrpas y dasg _____

_____

Gweithgaredd 1 ☐ **Gweithgaredd 2** ☐ (Ticiwch a yw ar gyfer y gweithgaredd cyntaf **neu'r** ail)

Gwybodaeth i'w sicrhau	**Ffynhonnell addas ar gyfer gwybodaeth**	**Sut y gwnaed y chwilio a dethol y wybodaeth**

Tystiolaeth gefnogol (os yw'n briodol) wedi'i hatodi neu gellir ei gweld yn _____

ASESYDD _____ **YMGEISYDD** _____

DYDDIAD _____ **DYDDIAD** _____

Atodiad J – TGCh2.2 Bwydo a datblygu'r wybodaeth fel ei bod yn addas i'r pwrpas ac olrheinio gwybodaeth newydd.

Ymgeisydd _____

Pwrpas y dasg(tasgau) _____

_____

Gweithgaredd 1 ☐ **Gweithgaredd 2** ☐ (Ticiwch a yw ar gyfer y gweithgaredd cyntaf **neu'r** ail)

Meini prawf ar gyfer asesu	**Sut y bodlonwyd y meini prawf ar gyfer asesu**
2.2.1 Bwydo a chyfuno gwybodaeth gan ddefnyddio fformatau sy'n cynorthwyo datblygiad.	
2.2.2 Datblygu gwybodaeth ac olrheinio gwybodaeth newydd fel y bo'n briodol.	

Tystiolaeth gefnogol (os yw'n briodol) wedi'i hatodi neu gellir ei gweld yn _____

ASESYDD _____ **YMGEISYDD** _____

DYDDIAD _____ **DYDDIAD** _____

Atodiad K - TGCh2.3 Cyflwyno gwybodaeth gyfunol fel testun â delwedd, testun â rhif, delwedd â rhif.

Ymgeisydd _____

Gweithgaredd neu dasg _____

(Ticiwch a yw ar gyfer y gweithgaredd cyntaf **neu'r** ail)

Gweithgaredd 1 ☐ **Testun** _____ **Gweithgaredd 2** ☐ **Testun** _____

Delwedd _____ **Delwedd** _____

Rhif _____ **Rhif** _____

Meini prawf ar gyfer asesu	**Sut y bodlonwyd y meini prawf ar gyfer asesu**
2.3.1 Datblygu'r cyflwyniad fel bod y fersiwn terfynol yn gywir ac yn dangos defnydd cyson o fformatau.	
2.3.2 Defnyddio gosodiadau sy'n briodol i'r mathau o wybodaeth.	

Tystiolaeth gefnogol (os yw'n briodol) wedi'i hatodi neu gellir ei gweld yn _____

ASESYDD _____ **YMGEISYDD** _____

DYDDIAD _____ **DYDDIAD** _____

Atodiad L – Cofnod Ffeil

Ymgeisydd _____

Dyddiad	Gyriant	Ffolder/cyfeirlyfr	Enw'r ffeil

ASESYDD _____ **YMGEISYDD** _____

DYDDIAD _____ **DYDDIAD** _____

Atodiad M – Defnydd pwrpasol o'r e-bost:

Dyddiad defnyddio'r e-bost	Y rheswm dros ddefnyddio'r e-bost	A oeddech chi wedi cynnwys atodiad – os gwnaed, beth oedd hwn?	Pa dystiolaeth ydych chi wedi'i chynnwys i ddangos hyn?

Lefel 3

Rhaid i ymgeiswyr ddangos eu bod yn gallu **cynllunio** a chyflawni nifer o dasgau gwahanol, a rhaid i un o'r rhain fod yn dasg fawr sy'n cwmpasu TGCh3.1, TGCh3.2 a TGCh3.3.

Bydd tasg fawr yn cynnwys nifer o dasgau cysylltiedig, lle bydd canlyniadau un dasg yn effeithio ar gyflawni tasgau eraill. Mae'n rhaid i'r ymgeiswyr wybod sut i gynllunio a chyflawni'r gweithgaredd drwy ei rannu'n gyfres o dasgau, yn gysylltiedig â chynllunio adalw gwybodaeth, prosesu gwybodaeth a chyflwyno'r canlyniadau.

Rhaid ymdrin â phob elfen (TGCh3.1, TGCh3.2, a TGCh3.3) ddwywaith, ac ymdrin â TGCh3.3 ar gyfer dwy gynulleidfa wahanol.

Drwy'r ddau weithgaredd yn gyfan gwbl mae'n rhaid i'r ymgeiswyr ddefnyddio o leiaf un ffynhonnell wedi'i seilio ar TGCh ac un ffynhonnell sydd heb ei seilio ar TGCh er mwyn darganfod a dethol gwybodaeth. Mae'n rhaid iddynt ddefnyddio o leiaf un enghraifft o destun, un enghraifft o rif ac un enghraifft o ddelwedd, ac un enghraifft sy'n cyfuno gwybodaeth e.e. testun a rhif neu ddelwedd a rhif, neu destun a delwedd neu'r tri. Mae'n rhaid i'r ymgeisydd hefyd ddarparu tystiolaeth ei fod wedi defnyddio e-bost yn bwrpasol, gan gynnwys o leiaf un neges e-bost gydag atodiad sy'n gysylltiedig â'r dasg.

Dylai ymgeiswyr allu cyflwyno tystiolaeth ar gyfer un gweithgaredd o'r Ymchwiliad Personol ym maes Cymru, Ewrop a'r Byd. Gallent ddefnyddio ffynonellau TGCh neu rai eraill yn yr ymchwiliad a chyflwyno eu canlyniadau naill ai yn ysgrifenedig lle byddant yn cyfuno testun, delwedd a rhif a/neu ar lafar drwy gyfrwng cyflwyniad ffurfiol lle gallent ddefnyddio pecyn meddalwedd fel Powerpoint. Os gwnânt gyflwyniad ffurfiol a'i gyflwyno i gynulleidfa, dylai hyn hefyd ddarparu tystiolaeth ar gyfer C3.1b o sgil allweddol Cyfathrebu.

Gallai'r ail weithgaredd fod ar ffurf taflen, cylchlythyr neu ganlyniadau o'r prosiect Cymhwyso Rhif. Gall y daflen fod yn gysylltiedig â gwaith yr ymgeiswyr o ran cymryd rhan yn y Gweithgareddau Menter.

Dylid cofnodi lleoliad y dystiolaeth yn erbyn pob un o elfennau'r meini prawf yn ôl rhif y dudalen ar y Crynodeb o'r Uned. Gweler **Atodiad N.**

TGCh3.1 – Chwilio am wybodaeth, gan ddefnyddio gwahanol ffynonellau a defnyddio meini prawf chwilio lluosol mewn o leiaf un achos

Mae'n rhaid i ymgeiswyr ddangos eu bod yn gallu cynllunio pa wybodaeth sy'n berthnasol i'r dasg a sut i'w chasglu, a gwneud dewisiadau ar sail perthnasedd ac ansawdd. Mae'n bwysig gweld bod yr ymgeiswyr yn gallu gwneud dewisiadau gwybodus. Mae'n rhaid i'r ymgeiswyr ddefnyddio ffynonellau TGCh a ffynonellau eraill o leiaf unwaith yn ystod y

gweithgareddau ac mae'n rhaid iddynt gyflwyno tystiolaeth eu bod wedi defnyddio chwiliad meini prawf lluosol. Rhaid dangos tystiolaeth o'r meini prawf a ddefnyddiwyd e.e. drwy brintiad sgrin o ddefnyddio peiriant chwilio, defnyddio chwiliadau meini prawf lluosol mewn cronfa ddata ac ati.

Dylai tystiolaeth fod ar gael yn dangos bod yr ymgeiswyr yn gallu cynllunio a threfnu eu gwaith i gyflawni nifer o dasgau gwahanol, (gan gynnwys un dasg fawr). Dylai'r cynlluniau fod yn gysylltiedig â chanfod gwybodaeth, prosesu gwybodaeth a chyflwyno canlyniadau.

Dylai'r ymgeisydd lenwi'r Cofnod Asesu yn **Atodiad S**.

TGCh3.1.1 – cynllunio sut i gasglu a defnyddio'r wybodaeth sydd ei hangen ar gyfer eich tasg

Dylid bod proses gynllunio glir, gydag ymgeiswyr yn sicrhau bod yr adnoddau sydd ar gael yn cael eu defnyddio yn y ffordd fwyaf effeithiol a bod y wybodaeth yn addas i'r dasg. Mae'n rhaid i ymgeiswyr enwi ffynonellau a gwneud cofnodion o sgôp a natur y chwiliadau. Gellid cynnwys allbrintiau anodedig o ddogfennau ffynhonnell yn dystiolaeth neu gallai'r ymgeiswyr lenwi'r ffurflenni canlynol:

Cynllun Gweithredu – **Atodiad O**
Ffurflen Ffynonellau Gwybodaeth – **Atodiad P**
Cofnod Chwilio – **Atodiad Q**

TGCh3.1.2 – gwneud dewisiadau ar sail perthnasedd ac ansawdd

Mae'n bwysig bod ymgeiswyr yn dangos eu bod wedi ystyried yn ofalus y wybodaeth graidd y maent wedi ei chasglu ac wedi gwneud dewisiadau yn ôl y wybodaeth y byddant yn ei defnyddio. Mae'n rhaid iddynt ddangos eu bod wedi gwneud y dewisiadau hyn ar sail ansawdd a pherthnasedd y wybodaeth.

Gallai'r ymgeiswyr anodi'r wybodaeth graidd neu lenwi'r Ffurflen Barnu Gwybodaeth yn **Atodiad R**.

TGCh3.2 - Bwydo i mewn a datblygu'r wybodaeth fel ei bod yn addysg i'r tasgau ac olrhain gwybodaeth newydd

Ar y lefel hon, disgwylir i'r ymgeisydd ddangos y gall ddefnyddio nodweddion meddalwedd i gyflawni tasgau yn fwy effeithlon. Gallai'r nodweddion hyn gynnwys defnyddio macros, ymholiadau ac adroddiadau cronfa ddata, dilysu cofnodion cronfeydd data, defnyddio swyddogaethau mewn taenlenni, er enghraifft VLOOKUP, HLOOKUP, datganiadau amnyth IF/THEN, postgyfuno, animeiddiad mewn cyflwyniadau ac ati. Dylai ymgeiswyr fod â phrofiad o addasu'r cymwysiadau a'r trefnau priodol.

Disgwylir i ymgeiswyr olrhain gwybodaeth newydd a dylent fanteisio i'r eithaf ar TGCh i'w helpu nhw i gynllunio a dilyn trywydd ymholi ac i'w helpu i fynd i'r

afael â phroblemau. Gallai enghreifftiau gynnwys defnyddio fformiwlâu i gael ystyr o ddata rhifiadol, defnyddio perthnasoedd rhesymegol oddi mewn i gronfa ddata i gymharu data ar draws sectorau gwahanol, cynhyrchu graffiau, siartiau, diagramau ac ati.

Dylai'r ymgeisydd lenwi'r Cofnod Asesu yn **Atodiad U** .

TGCh3.2.1 – Bwydo i mewn a dwyn ynghyd wybodaeth gan ddefnyddio fformatau sy'n cynorthwyo datblygiad

Disgwylir gweld tystiolaeth bod yr ymgeiswyr wedi bwydo i mewn wybodaeth mewn fformat cyson gan ddefnyddio cyfleusterau fel arddulliau, fformatio data, strwythurau tablau. Dylai ymgeiswyr greu a defnyddio strwythurau a gweithdrefnau sy'n cynorthwyo â datblygiad a chyfuniad testun, delweddau a rhifau e.e. grwpio delweddau, didoli gwybodaeth, defnyddio meddalwedd taenlenni i greu graffiau a siartiau, defnyddio sleidiau meistr mewn cyflwyniadau, sefydlu strwythurau postgyfuno.

TGCh3.2.2 – defnyddio nodweddion meddalwedd i wneud eich gwaith yn fwy effeithlon

Mae amrediad helaeth iawn o nodweddion ar gael ac i raddau helaeth byddant yn dibynnu ar y gweithgaredd cyffredinol. Rydych yn edrych ar lefel uwch o sgil, fodd bynnag, a dylech ystyried nodweddion fel:

- Macros
- Sleidiau meistr
- Amseru mewn cyflwyniadau
- Dilysu cofnodion mewn cronfa ddata
- Cynhyrchu ymholiadau ac adroddiadau
- LOOKUP, datganiadau amnyth IF/THEN

Awgrymiadau yn unig yw'r rhain, sy'n rhoi arweiniad i lefel y sgiliau y disgwylir i'r ymgeiswyr ei dangos.

TGCh3.2.3 – anodi/dogfennu eich gwaith i ddangos eich bod wedi deall y prosesau a ddilynwyd ac wedi ystyried safbwyntiau pobl eraill

Dylai ymgeiswyr gynnwys gwaith a chynlluniau drafft sydd wedi cael eu hanodi'n ofalus, nid yn unig i ddangos eu bod wedi dilyn y prosesau yn gywir ond hefyd i ddangos eu bod wedi deall beth roeddynt yn ei wneud, a pham. Mae'n bwysig hefyd bod tystiolaeth i ddangos eu bod wedi ystyried safbwyntiau pobl eraill ac wedi gwneud newidiadau yn sgil hynny. Dyma gyfle gwych i'r ymgeisydd ddarparu tystiolaeth ei fod wedi defnyddio e-bost gydag atodiad yn bwrpasol. Byddai modd iddo anfon neges e-bost at berson priodol yn atodi ei waith neu ganlyniadau o'r gwaith er mwyn derbyn sylwadau/adborth. Yna, gallai wneud y newidiadau neu beth bynnag sy'n cael ei awgrymu gan y sylwadau/adborth o'r neges e-bost a dderbynnir. Os yw ymgeiswyr yn manteisio ar y cyfle hwn i ddangos eu bod wedi defnyddio e-

bost i bwrpas, yna dylent gynnwys tystiolaeth o anfon neu dderbyn negeseuon e-bost (gan gynnwys atodiad(au)) fel y bo'n briodol.

Gallai ymgeiswyr hefyd lenwi'r Ffurflen Cyfnewid Gwybodaeth yn **Atodiad T** yn dystiolaeth o safbwyntiau eraill y maent wedi eu derbyn oddi wrth bobl eraill.

TGCh3.3 – Cyflwyno gwybodaeth gyfunol fel testun â delwedd, testun â rhif, delwedd â rhif.

Mae'n rhaid i'r ymgeiswyr ddangos eu bod yn gallu datblygu strwythur a chynnwys y cyflwyniad terfynol drwy ymgynghori â phobl eraill. Dyma gyfle arall i ymgeiswyr ddarparu tystiolaeth eu bod wedi gwneud defnydd pwrpasol o e-bost gydag atodiadau. Dylai ymgeiswyr gynnwys drafftiau anodedig yn dangos yn glir ymhle y cafodd y gwaith ei fireinio yn sgil cyngor pobl eraill. Mae'n rhaid iddynt gyflwyno gwybodaeth mewn modd sy'n addas i'r pwrpas ac i'r gynulleidfa. Gall y gynulleidfa fod yn grŵp o gyfoedion, yn asesydd, yn athro, yn ddosbarth/blwyddyn wahanol neu'n gynulleidfa o'r tu allan i'r ysgol/coleg. Rhaid cofio bod y ddau weithgaredd yn gofyn am gyflwyno gwybodaeth i **ddwy wahanol** gynulleidfa. Gallai'r ymchwiliad personol ar gyfer un o'r gweithgareddau fod yn ddogfen ysgrifenedig a gyflwynir i'r athro neu yn gyflwyniad ffurfiol i'r grŵp cyfoedion, tra gallai'r ail weithgaredd fod yn gyflwyniad am y ffordd orau i fynd i'r afael â'r ymchwiliad personol, i grŵp sydd yn mynd i gychwyn astudio Bagloriaeth Cymru y flwyddyn ganlynol.

Dylai'r ymgeiswyr lenwi'r Cofnod Asesu yn **Atodiad V** a chynnwys allbrintiau o'r negeseuon e-bost ac atodiadau os defnyddiwyd e-bost.

TGCh3.3.1 - dyblygu'r cyflwyniad fel ei fod yn gywir, yn glir ac wedi'i gyflwyno'n gyson, gan ystyried safbwyntiau pobl eraill

Fel y crybwyllwyd eisoes, gallai ymgeiswyr gynnwys gwaith drafft wedi'i anodi a/neu'r Ffurflen Cyfnewid Gwybodaeth a nodwyd yn TGCh3.2. Mae'n bwysig bod y gwaith yn glir ac yn gywir. Mae gwallau yn y gwaith terfynol yn golygu nad yw'r ymgeiswyr wedi bodloni'r maen prawf o wirio gwaith am gywirdeb ac ystyr.

TGCh3.3.2 - cyflwyno eich fersiwn terfynol yn effeithiol gan ddefnyddio fformat ac arddull sy'n addas ar gyfer eich pwrpas a'ch cynulleidfa

Dylai ymgeiswyr gymryd anghenion eu cynulleidfa i ystyriaeth o ran y modd y mae'r gwaith terfynol yn cael ei gyflwyno. Ymysg y pethau y gellid eu hystyried mae a ddylai'r fersiwn terfynol fod ar bapur, yn cael ei gadw'n electronig neu mewn fformat aml-gyfrwng ynghyd â pha mor addas y mae'r cynnwys a pha mor hawdd yw ei ddeall.

Atodiad N – Crynodeb o'r Uned

Ymgeisydd _____

Dangos eich bod yn gallu **cynllunio** a chyflawni nifer o dasgau gwahanol, a rhaid i un o'r rhain fod yn dasg fawr sy'n cwmpasu TGCh3.1, TGCh3.2 a TGCh3.3. Rhaid cwrdd â gofynion pob cydran, TGCh3.1, TGCh3.2 a TGCh3.3, o leiaf ddwywaith, a rhaid cwrdd â gofynion TGCh3.3 ar gyfer o leiaf dwy gynulleidfa wahanol. Gellir defnyddio tasgau llai i sicrhau bod pob cydran wedi'i chynnwys.

Yn gyfan gwbl, trwy wneud o leiaf ddau weithgaredd, mae'n rhaid i chi

- gynnwys o leiaf un ffynhonnell wybodaeth wedi'i seilio ar TGCh
- cynnwys o leiaf un ffynhonnell wybodaeth heb fod wedi'i seilio ar TGCh
- defnyddio o leiaf un enghraifft o destun, un enghraifft o ddelwedd ac un enghraifft o rif
- defnyddio un enghraifft o wybodaeth gyfunol, megis testun â rhif, neu ddelwedd â rhif neu destun â delwedd
- cyflwyno tystiolaeth o ddefnyddio'r e-bost i bwrpas; mae'n rhaid i un o'r negeseuon e-bost hyn gynnwys atodiad sy'n berthnasol i'r dasg.

CYDRAN				**CYFEIRNOD(AU)**
TGCh3.1 Chwilio am wybodaeth gan ddefnyddio gwahanol ffynonellau a defnyddio meini prawf chwilio lluosol mewn o leiaf un achos.	**Gweithgaredd 1**	Ffynhonnell TGCh (os yw'n briodol)		
		Ffynhonnell nad yw'n seiliedig ar TGCh (os yw'n briodol)		
	Gweithgaredd 2	Ffynhonnell TGCh (os yw'n briodol)		
		Ffynhonnell nad yw'n seiliedig ar TGCh (os yw'n briodol)		
TGCh3.2 Bwydo i mewn a datblygu'r wybodaeth ac olrheinio gwybodaeth newydd.	**Gweithgaredd 1**			
	Gweithgaredd 2			
TGCh3.3 Cyflwyno gwybodaeth gyfunol megis testun â delwedd, testun â rhif, delwedd â rhif.	**Gweithgaredd 1** (ticiwch fel y bo'n briodol)	Testun		
		Delwedd-au		
		Rhifau		
	Gweithgar-edd 2 (ticiwch fel y bo'n briodol)	Testun		
		Delwedd-au		
		Rhifau		
Defnydd pwrpasol o'r e-bost (gydag atodiad)	**Gweithgaredd 1 neu 2**			

Rwyf yn cadarnhau mai gwaith yr ymgeisydd ei hun yw'r dystiolaeth a gyflwynir a'i fod yn bodloni'r holl ofynion o ran tystiolaeth ar gyfer y Sgil Allweddol hwn.

ASESYDD _____ **YMGEISYDD** _____

DYDDIAD _____ **DYDDIAD** _____

Atodiad O – Cynllun Gweithredu

Dalen gynllunio ar gyfer y prif dasg

Ymgeisydd _____

Pwrpas y dasg _____

_____

Natur a dilyniant y tasgau

Tystiolaeth gefnogol (os yw'n briodol) wedi'i hatodi neu gellir ei gweld yn _____

ASESYDD _____ **YMGEISYDD** _____

DYDDIAD _____ **DYDDIAD** _____

Atodiad P – Ffurflen Ffynonellau Gwybodaeth – TGCh3.1

Enw'r Ymgeisydd: _____

Pwrpas y Gweithgaredd: _____

Y Math o Ffynhonnell	Y Math o Wybodaeth a'r Dechneg Chwilio a Ddefnyddiwyd	Manteision	Cyfyngiadau

Y Math o Ffynhonnell	Y Math o Wybodaeth a'r Dechneg Chwilio a Ddefnyddiwyd	Manteision	Cyfyngiadau

Ymgeisydd: _____ **Dyddiad:** _____

Asesydd: _____ **Dyddiad:** _____

Atodiad Q - TGCh3.1 Chwilio am wybodaeth gan ddefnyddio gwahanol ffynonellau a defnyddio meini prawf chwilio lluosol mewn o leiaf un achos.

COFNOD CHWILIO

Ymgeisydd _____

Gweithgaredd neu dasg _____

Gweithgaredd 1 ☐ **Gweithgaredd 2** ☐ (Ticiwch a yw ar gyfer y gweithgaredd cyntaf **neu'r** ail)

Gwybodaeth i'w chasglu	**Ffynhonnell addas ar gyfer gwybodaeth**	**Sut y gwnaed y chwilio a dethol y wybodaeth**

Tystiolaeth gefnogol (os yw'n briodol) wedi'i hatodi neu gellir ei gweld yn _____

ASESYDD _____ **YMGEISYDD** _____

DYDDIAD _____ **DYDDIAD** _____

Atodiad R – Ffurflen Barnu Gwybodaeth – TGCh3.1

Ffynhonnell y Wybodaeth	Perthnasedd i'r Pwrpas	Ansawdd y Wybodaeth	Dibynadwyedd y Wybodaeth	Cywirdeb y Wybodaeth	Seiliwyd y penderfyniad ar: e.e. barn …….

Ffynhonnell y Wybodaeth	Perthnasedd i'r Pwrpas	Ansawdd y Wybodaeth	Dibynadwyedd y Wybodaeth	Cywirdeb y Wybodaeth	Seiliwyd y penderfyniad ar: e.e. barn …….

Ymgeisydd: _____ **Dyddiad:** _____

Asesydd: _____ **Dyddiad:** _____

Atodiad S - TGCh3.1 Chwilio am wybodaeth gan ddefnyddio gwahanol ffynonellau a defnyddio meini prawf chwilio lluosol mewn o leiaf un achos.

Ymgeisydd _____

Gweithgaredd neu dasg _____

Gweithgaredd 1 ☐ **Gweithgaredd 2** ☐ (Ticiwch a yw ar gyfer y gweithgaredd cyntaf **neu'r** ail)

Meini Prawf ar gyfer Asesu	**Sut y bodlonwyd y meini prawf ar gyfer asesu**
3.1.1 Cynllunio sut i gasglu a defnyddio'r wybodaeth y mae ei hangen ar gyfer eich tasgau	
3.1.2 Gwneud dewisiadau ar sail perthnasedd ac ansawdd	

Tystiolaeth gefnogol (os yw'n briodol) wedi'i hatodi neu gellir ei gweld yn _____

ASESYDD _____ **YMGEISYDD** _____

DYDDIAD _____ **DYDDIAD** _____

Atodiad T – Ffurflen Cyfnewid Gwybodaeth – TGCh3.2/TGCh3.3 – sylwch mai dim ond unwaith y gellir cyfnewid gwybodaeth, ac mae hynny'n dderbyniol

Enw'r Ymgeisydd: _____

Pwrpas y Gweithgaredd: _____

Y Wybodaeth a Gafodd ei Chyfnewid	Dull a Ddefnyddiwyd i Gyfnewid Gwybodaeth	Dyddiad Cyfnewid	Cyfnewid â Phwy (dylech gynnwys llofnod y derbynnydd)	Y Dystiolaeth a Ddarparwyd o'r Cyfnewid e.e. copi o neges e-bost, allbrintiau anodedig	O ran eich gwaith, beth a newidioch ers cyfnewid gwybodaeth?

Y Wybodaeth a Gafodd ei Chyfnewid	Dull a Ddefnyddiwyd i Gyfnewid Gwybodaeth	Dyddiad Cyfnewid	Cyfnewid â Phwy (dylech gynnwys llofnod y derbynnydd)	Y Dystiolaeth a Ddarparwyd o'r Cyfnewid e.e. copi o neges e-bost, allbrintiau anodedig	O ran eich gwaith, beth a newidioch ers cyfnewid gwybodaeth?

Ymgeisydd: _____ **Dyddiad:** _____

Asesydd: _____ **Dyddiad:** _____

Atodiad U - TGCh3.2 Bwydo i mewn a datblygu'r wybodaeth ac olrheinio gwybodaeth newydd.

Ymgeisydd _____

Pwrpas y dasg _____

_____

Gweithgaredd 1 ☐ **Gweithgaredd 2** ☐ (Ticiwch a yw ar gyfer y gweithgaredd cyntaf **neu'r** ail)

Meini Prawf ar gyfer Asesu	**Sut y bodlonwyd y meini prawf ar gyfer asesu**
3.2.1 Bwydo i mewn a dwyn ynghyd wybodaeth gan ddefnyddio fformatau sy'n cynorthwyo datblygiad.	
3.2.2 Defnyddio nodweddion meddalwedd i wneud eich gwaith yn fwy effeithlon.	
3.2.3 Anodi/dogfennu eich gwaith i ddangos eich bod wedi deall y prosesau a ddilynwyd ac wedi ystyried safbwyntiau pobl eraill.	

Tystiolaeth gefnogol (os yw'n briodol) wedi'i hatodi neu gellir ei gweld yn _____

ASESYDD _____ **YMGEISYDD** _____

DYDDIAD _____ **DYDDIAD** _____

Atodiad V - TGCh3.3 Cyflwyno gwybodaeth gyfunol fel testun â delwedd, testun â rhif, delwedd â rhif.

Ymgeisydd _____

Pwrpas y dasg _____

_____

Gweithgaredd 1 ☐ **Gweithgaredd 2** ☐ (Ticiwch a yw ar gyfer y gweithgaredd cyntaf **neu'r** ail)

Meini Prawf ar gyfer Asesu	**Sut y bodlonwyd y meini prawf ar gyfer asesu**
3.3.1 Datblygu'r cyflwyniad fel ei fod yn gywir, yn glir ac wedi'i gyflwyno yn gyson, gan ystyried safbwyntiau pobl eraill.	
3.3.2 Cyflwyno eich fersiwn terfynol yn effeithiol gan ddefnyddio fformat ac arddull sy'n addas ar gyfer eich pwrpas a'ch cynulleidfa.	

Tystiolaeth gefnogol (os yw'n briodol) wedi'i hatodi neu gellir ei gweld yn _____

ASESYDD _____ **YMGEISYDD** _____

DYDDIAD _____ **DYDDIAD** _____